| **BWRDD DIWYDIANT BWYD A DIOD CYMRU** <br> **/** | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Dydd Mercher 4 Rhagfyr 2019** |
| **Amser y Cyfarfod:** | **09:00 – 16:00** |
| **Lleoliad y Cyfarfod:** | **Y Ganolfan Technoleg Bwyd** <br> **Coleg Menai, Ffordd Penmynydd, Llangefni. LL77 7HY** |
| **Cadeirydd y Bwrdd:** | **Mr Andy Richardson** |

**YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru (LIC):** <br> Keith Smyton (KS) <br> Andrew Martin (AM) <br> Alison Ebsworth (AME) | **Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru:** <br> Andy Richardson (AR) <br> David Lloyd (DL) <br> Huw Thomas (HT) <br> James Wilson (JW) <br> Justine Fosh (JF) <br> Norma Barry (NB) <br> Katie Palmer (KP) – sesiwn y bore <br> Kayla Moyles (KM) |
| **Cyflwynwyr/Siaradwyr Gwadd:** <br> **Llywodraeth Cymru** <br> David Lloyd-Thomas (DLT) <br> Nic Shilton (NS) <br> Kayla Moyes (KM) <br> Rebecca Villis (RV) <br> Tim McHugh, WG. <br> Nick Miller (NM) Miller Research | |
| **Ymddiheuriadau:** <br> Dave Morris (DM) Llywodraeth Cymru <br> Alison Lea Wilson (ALW) | |

| | |
|---|---|
| **1.0** | **Croeso, Cyflwyniadau a Diben y Cyfarfod** |
| 1.1 | Croesawodd **AR** bawb i'r cyfarfod a diolchodd i'r rheini a oedd yn bresennol yn / a sefydlodd y digwyddiad a gynhaliwyd cyn y cyfarfod ar gyfer clystyrau. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn ddigwyddiad ardderchog a'i fod yn falch i weld y clystyrau yno. |
| 1.2 | Roedd **NB** yn teimlo y dylai'r Bwrdd gasglu'r wybodaeth allweddol a fyddai'n deillio o'r digwyddiadau ar gyfer y clystyrau ac yna cysylltu â'r diwydiant ehangach. Roedd angen pynciau strwythuredig ac amcanion cyffredin i'w rhannu/diweddaru gyda'r Bwrdd. |

| | |
|---|---|
| 1.3 | Dywedodd **DL** fod angen cytuno ar ffordd i'r clystyrau fedru cyflwyno adborth i'r Bwrdd. |
| 1.4 | Diolchodd y **Cadeirydd** i aelodau'r Bwrdd ac i BIC Innovation am gynorthwyo a chymryd rhan yn y Gynhadledd Paratoi ar gyfer Uwchraddio Cynaliadwy a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 25 Tachwedd 2019. Roedd mwy na 150 o gynrychiolwyr yn bresennol yn y digwyddiad cadarnhaol hwn a oedd yn ysbrydoli busnesau i dyfu ac i fod yn rhan o rwydweithiau'r clystyrau. Cytunodd y Bwrdd i gefnogi cynhadledd yn 2020.<br><br>**CAM GWEITHREDU –** Trefnu cyfarfod gydag uwch-reolwyr Banc Datblygu Cymru. Dylid gwahodd aelodau'r Bwrdd Bwyd, swyddogion LIC a BIC Innovation. Roedd angen hefyd ystyried buddsoddwyr / angylion busnes fyddai â diddordeb.<br><br>**CAM GWEITHREDU –** Cylchredeg yr hyn a ddysgwyd ar ôl y Gynhadledd Uwchraddio Cynaliadwy −**AM.**<br><br>**CAM GWEITHREDU –** Anfon llythyr i ddiolch i BIC am reoli cynhadledd lwyddiannus **– y Cadeirydd i'w lofnodi.** |
| **2.0** | **Camau heb eu Cymryd – Cyfarfod y Bwrdd Hydref 2019**<br><br>**CAM GWEITHREDU** – Y cofnodion / camau heb eu cymryd yng nghyfarfod cyntaf y Bwrdd yn 2020. |
| **3.0** | **Y Diweddaraf am Gynllun Gweithredu 2 − (Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Bwyd a Diod)** |
| 3.1 | Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad ymgynghori ar gyfer y strategaeth, a dywedwyd mai'r bwriad oedd cyhoeddi'r Cynllun Strategol ym mis Ebrill / Mai 2020. |
| 3.2 | Dywedodd DLT wrth y Bwrdd fod dal angen mynd i'r afael â nifer o gwestiynau allweddol a chytuno ar y camau nesaf. |
| 3.3 | Roedd y Gweinidog wedi gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith o ddatblygu'r strategaeth ac am yr amserlenni a bennir ynddi ar gyfer y dyfodol. |
| 3.4 | Ychwanegodd AM fod angen i'r camau gweithredu yn y strategaeth fod yn rhai uchelgeisiol – ac yn rhai y bydd modd eu rhoi ar waith er mwyn bodloni Dangosyddion Perfformiad Allweddol a gâi eu pennu yn y dyfodol. Cytunodd y Bwrdd i fwrw ymlaen â'r canlyniadau allweddol a bennir yn y strategaeth ac â'r heriau y mae am fynd i'r afael â nhw. Roedd y Bwrdd yn cytuno bod angen i Werthoedd Brand Cynaliadwy fod yn rhan annatod o'r cynllun strategol a bod angen i'r cynllun hwyluso'r gwerthoedd hynny. Roedd angen elfen weithredol gref yn y strategaeth hefyd er mwyn ysgogi'r diwydiant. |
| 3.5 | Roedd y Bwrdd yn cytuno bod angen i'r elfennau a oedd yn ymwneud â chlystyrau a chynaliadwyedd greu effaith bendant, fel y nodir yn y cerrig milltir allweddol ac ym metrigau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Y teimlad oedd bod angen cysylltiad cryf rhwng yr heriau strategol a sut yr eir ati i weithredu'r cynllun. |
| 3.6 | Teimlai JF fod angen i'r strategaeth a'r weledigaeth ganolbwyntio'n glir ar sut y byddai'r strategaeth yn cael ei chyflawni, ac ychwanegodd fod hynny'n golygu gwneud mwy na dim ond cyflawni'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Roedd |

| | |
|---|---|
| | yn ymwneud hefyd â sicrhau'r adnoddau ar gyfer cyflawni a chysylltu meysydd pwysig megis Gwerthoedd Brand Cynaliadwy, Sgiliau a Thechnoleg a'r effaith y byddai'r meysydd hynny'n ei chael ar y strategaeth, Roedd angen ei gynllun ei hun ar bob un o'r meysydd. |
| 3.7 | Amlinellodd NS y sefyllfa o ran y Strategaeth Bwyd a Diod. Cynhaliwyd digwyddiadau cyn-ymgysylltu yn ystod haf 2018 ac ymgynghorwyd â'r cyhoedd yn 2019. Ers hynny, roedd y gwaith ar Glystyrau a Chynaliadwyedd wedi symud yn ei flaen yn gyflym ac roedd y meysydd hynny bellach yn rhan o'r strategaeth.<br><br>CAM GWEITHREDU – NS a DLT i anfon papur ar y Bwrdd ac i gynnwys graffiau o fetrigau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol. |
| **4.0** | **Y Diweddaraf am Werthoedd Brand Cynaliadwy** |
| 4.1 | Cyflwynodd **RV** ddadansoddiad o'r sefyllfa o ran Gwerthoedd Brand Cynaliadwy. |
| 4.2 | Roedd y **Bwrdd** yn cytuno bod angen diwygio'r Datganiad o Ddiben (Gweledigaeth a Chenhadaeth) ar gyfer Gwerthoedd Brand Cynaliadwy a chynnwys sylwebaeth, fel a ganlyn:-<br>1. Roedd angen ymdrin â'r argyfwng Ecolegol a'r argyfwng Hinsawdd o dan y CHWE CHOLOFN fel y'u hamlinellwyd yn y cyflwyniad.<br>2. Y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol − roedd angen diffinio'r allbynnau'n well. Roedd rhai ohonynt yn hawdd eu diffinio ond roedd angen diffiniadau cryfach a mwy cryno ar gyfer eraill, megis bioamrywiaeth. 'Beth yr ydym yn ei olygu wrth y naratif hwn a sut y bydd hynny'n gymwys i'r gadwyn gyflenwi gyfan?<br>3. Yr her enfawr o ran *Cynhwysion a Chynhyrchion o Gymru −Ymdeimlad o Le a Thraddodiadau Cymru*. Y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol fyddai'r prism ar gyfer ystyried y meysydd hynny.<br>4. Roedd y Bwrdd a Llywodraeth Cymru yn rhannu'r atebolrwydd (50% yr un) am y prosiect ar Werthoedd Brand Cynaliadwy.<br>5. Roedd Diogelwch Bwyd – a'r angen i Ddiogelu – Hyrwyddo – Rhoi Cyhoeddusrwydd yn allweddol i integriti unrhyw Frand Cynaliadwyedd.<br>6. Talu am Gynllun Cynaliadwy arfaethedig. Dyma rai o'r cwestiynau a gyflwynwyd: Pwy oedd y rhanddeiliaid allweddol a fydd yn talu amdano; faint fyddai angen ei gyfrannu at y cynllun, beth fyddai costau rhedeg unrhyw gynllun a phwy fyddai'n talu am y cynllun yn y pen draw? A fyddai'n cynnig gwell gwerth i fusnesau ac a fyddai'n arwain at fwy o elw? A fyddai'r defnyddwyr yn barod i dalu mwy am gynhyrchion o Gymru? Roedd angen gwneud rhagor o ymchwil ar agweddau defnyddwyr, nid dim ond yng Nghymru ac yn y DU ond yn rhyngwladol hefyd. Roedd angen gwell dealltwriaeth am wahaniaethu rhwng cynhyrchion a marchnadoedd ac roedd bwriad i wneud rhagor o waith ymchwil yn hynny o beth.<br>7. Ymdeimlad o integriti a gwerthoedd y brand a sut y byddai'r rhain yn cael eu hyrwyddo ymhlith y genhedlaeth iau sy'n teimlo'n gryf iawn am y newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd? Felly, sut y dylid cyflwyno'r neges hon ar blatfformau'r cyfryngau? Beth fyddai ymgyrch hyrwyddo yn ei chynnwys?<br>8. Diogelwch bwyd a gwarchod delwedd y brand – sut y byddem yn sicrhau bod cyn lleied o risg â phosibl i integriti / gwerthoedd unrhyw frand? A fyddent yn cael eu gwarchod o dan Gonsortiwm Manwerthu Prydain (BRC) ac a fyddai angen eu cofrestru?<br>9. Gwastraff Bwyd a Bioamrywiaeth a Hylendid Bwyd − Er mwyn gwarchod Cymru a'i chynhyrchion pe byddai unrhyw broblemau iechyd? |

| | | |
|---|---|---|
| | 10. | Y Colofnau Cynaliadwyedd – roedd angen eu cynnwys wrth ddylunio system achredu'r cynllun ac roedd angen iddynt gyd-fynd â Bwyd a Diod Cymru.<br>A – Yr Amgylchedd B – Gwaith Teg C − Iechyd D − Diwylliant E − Natur F – Diogelwch. A fyddem yn dangos y byddai'r rhain i gyd, neu rai ohonynt, yn cael eu cyflawni o'r diwrnod cyntaf? Neu a fyddent yn cael eu hachredu'n rhannol ac yn cyflawni'r gofynion eraill wedyn? Neu, eu bod ar drywydd gwelliant ac y byddai'n rhaid iddynt ddangos eu bod yn bodloni'r gofynion o ran diogelwch bwyd OND eu bod yn gweithio tuag at fodloni gofynion PUM COLOFN arall y cynllun. |
| | 11. | Beth yw'r diffiniad o Frand Cymru? Beth yw'r cyfle/gofynion. Mwy am y Cynhyrchion neu'r Gweithredwr neu'r Ddau? Roedd angen egluro hyn yn well. |
| | 12. | Bwyd a Diod Cynaliadwy a chyd-fynd â Cymru – Y Genedl Fwyd yn unol â'r Cynllun Gweithredu a'r diffiniad sydd ynddo. |
| | 13. | Pa gyfran o'r cynhwysion y byddai angen iddi ddod o Gymru a pha gyfran y byddai angen ei defnyddio mewn cynhwysion cynhyrchion cyn y gellid eu categoreiddio'n gynhyrchion a fyddai'n bodloni gofynion y Gwerthoedd Brand Cynaliadwy? O le y byddai'r neges hon yn dod? A fyddem yn cynhyrchu'r hyn y mae'r defnyddiwr am ei gael, yr hyn y byddai ei angen arno a'r hyn y byddai'n ymgyrraedd ato? |
| | 14. | Beth oedd yn cael ei gynnig? Ai dyma fyddai barn y diwydiant a'r defnyddiwr? |
| | 15. | Roedd **MJ** wedi cyfarfod yn ddiweddar gydag Ingredion Incorporated ym Manceinion. Mae'r cwmni hwn yn cynorthwyo cwmnïau sydd â labeli glân ac mae'n gwmni defnyddiol i'w ddefnyddio'n feincnod. Rhannwyd y newyddion diweddaraf a ffyrdd o ymdrin â chynaliadwyedd a gwerthoedd brand, a'u rhannu'n bedair adran (1) Cyflogwr Delfrydol (2) Cyflenwr Delfrydol (3) Buddsoddwr Delfrydol (4) Cymydog Delfrydol, a thrafodwyd sut y mae cymhwyso / cyfleu hyn mewn lleoliad busnes. |
| | 16. | Angen ystyried: ***Gwnaed yng Nghymru neu Cynhyrchwyd yng Nghymru*** – roedd angen i hyn fod yn glir. Roedd y ddwy yn strategaethau gwahanol iawn – gweithgynhyrchwyr moesegol yn defnyddio cynhyrchion moesegol mewn cadwyn gyflenwi lle gellid olrhain y cynnyrch. |
| | 17. | Roedd Origin Green yn Iwerddon yn gweithio ar gyfer marchnadoedd sy'n allforio cynhyrchion o Iwerddon oherwydd bod y cynllun yn cael cymhorthdal sylweddol. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn rhoi cymhorthdal, ond mae'n bosibl y byddai'n edrych ar fodel hybrid mewn partneriaeth â'r diwydiant, drwy roi blaenoriaeth i gynhyrchion â Gwerthoedd Brand Cynaliadwy. Roedd angen i gynaliadwyedd fod yn elfen ganolog o Frandiau Allweddol o Gymru. |
| | 18. | **Ar gyfer y Defnyddiwr:** yr angen am gynhwysion o Gymru a'r naws Gymreig. |
| | 19. | **Ar gyfer y Gweithgynhyrchydd**: rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr am integriti bwyd o Gymru. Angen gweithredu fesul cam, ac wedi denu cyllid a diddordeb. |
| | 20. | **Ar gyfer y Diwydiant:** ennyn diddordeb drwy'r cadwyni cyflenwi ar eu hyd, o'r dechrau i'r diwedd. A oeddem yn gwybod a fyddai rhanddeiliaid allweddol yn barod i fabwysiadu ffordd newydd o weithio a fyddai'n seiliedig ar gynaliadwyedd? |
| | 21. | **Ar gyfer y Manwerthwr**: angen dangos budd amlwg, drwy'r gadwyn gyflenwi ar ei hyd, a dangos bod mantais ychwanegol pe byddent yn gwerthu cynhyrchion a fyddai wedi'u hachredu o dan y cynllun Gwerthoedd Brand Cynaliadwy. |

| | |
|---|---|
| | 22. Pennu Fframweithiau i nodi bylchau a'r materion allweddol, ystyried faint o gynhyrchion o Gymru sydd â Gwerthoedd Brand Cynaliadwy.<br>23. Symbylu ymddygiad drwy annog busnesau i fod yn gynaliadwy ac i gefnogi'r broses newid.<br>24. Nid oedd y **Bwrdd** wedi cael ei argyhoeddi am hyrwyddo cynllun achredu a fyddai'n cynnwys lefelau Aur – Arian – Efydd, ond roedd yn teimlo bod angen ffordd o wahaniaethu rhwng safonau. Roedd yn derbyn bod angen i fàs critigol o fusnesau ddangos eu bod yn newid neu eu bod yn bwriadu newid dros amser i wella safonau. Roedd yn fater o symbylu newid yn y diwydiant Bwyd a Diod.<br>25. Roedd angen cysylltu a thrafod gydag Oxfam a'r WWF a chyrff anllywodraethol eraill sy'n hyrwyddo gwerthoedd brand cynaliadwy a chadwyni cyflenwi moesegol.<br>26. Roedd angen lliniaru risgiau drwy'r gadwyn gyflenwi ar ei hyd a thrafod sut y byddent yn cael eu rheoli.<br>27. Roedd y **Bwrdd** yn cytuno bod angen i Werthoedd Brand Cynaliadwy fod yn fframwaith ambarél, a bod angen lefelau achredu er mwyn gwahaniaethu a gwobrwyo'r gwerthoedd hynny. Roedd angen creu màs critigol ac roedd angen i'r Llywodraeth lunio strategaethau cydlynol i yrru'r broses newid yn ei blaen neu i newid dros amser er mwyn gwella safonau bwyd. Roedd hwn yn fframwaith o gamau gweithredu i symbylu newid yn y diwydiant bwyd a diod.<br><br>**CAM GWEITHREDU** – **RV a JB** i gysylltu â Chyfarwyddwr Cynaliadwyedd M&S i drafod polisi'r cwmni ar gynaliadwyedd a chyrchu yn y dyfodol.<br><br>**CAM GWEITHREDU** – **RV** i adrodd yn ôl i'r Bwrdd ynglŷn ag a yw rhanddeiliaid yn deall pwrpas Gwerthoedd Brand Cynaliadwy<br><br>**CAM GWEITHREDU** – **RV a DLT** i sicrhau bod cysylltiad (Gwerthoedd Brand Cynaliadwy fydd yr edefyn aur) â Chynllun Gweithredu 2 (y strategaeth nerwydd ar gyfer bwyd a diod)<br><br>**CAM GWEITHREDU** – **Yr Is-adran Fwyd** – angen iddi sicrhau bod y Brand Bwyd a Diod yn cyd-fynd â hunaniaeth glir o ran Gwerthoedd Brand Cynaliadwy a dangos bod manteision amlwg i neges am gynaliadwyedd.<br><br>**CAM GWEITHREDU** – **Y Bwrdd Rhaglen Gwerthoedd Brand Cynaliadwy yn atebol i Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru a Llywodraeth Cymru**. Datblygu cynllun prosiect ar gyfer y blynyddoedd nesaf.<br><br>**CAM GWEITHREDU – Yr Is-adran Fwyd** i greu enw da i'r brand cynaliadwy dros amser ac i gysylltu hynny â gwerthoedd ***Tir a Môr*** a sicrhau eu bod yn hysbys ledled y byd. |
| 4.3 | **O ran y neges am Werthoedd Brand Cynaliadwy, roedd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru am weld y neges honno'n:**<br>1. Sicrhau bod y diffiniad o gyflenwr cynaliadwy yn cyd-fynd â'r diffiniad y cytunwyd arno.<br>2. Sicrhau ei bod yn cyd-fynd â Brand Bwyd a Diod Cymru a sut y byddai'r brand hwnnw'n esblygu yn y dyfodol.<br>3. Sicrhau bod diben Gwerthoedd Brand Cynaliadwy yn glir a bod pawb yn eu deall.<br>4. Sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r Strategaeth Bwyd a Diod.<br>5. Sicrhau bod ***Tir a Môr*** yn gyfystyr â gweithgynhyrchu cynaliadwy. |

| | |
|---|---|
| | **CAM GWEITHREDU – RV** – Eitem ar agenda cyfarfod nesaf y Bwrdd Rhaglen Gwerthoedd Brand Cynaliadwy |
| **5.0** | **Y Diweddaraf am Gyngor y Sector Bwyd a Diod/Y Diweddaraf am Gynhyrchiant ac Allforion/Y Diweddaraf am Sgiliau** |
| 5.1 | Rhoddodd y **Cadeirydd** yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am sefyllfa Cyngor y Sector Bwyd a Diod (ar gyfer y DU), gan ddweud bod saith ffrwd waith wrthi'n cael eu datblygu a bod tair ohonynt wedi gwneud cynnydd:-<br>1 Y ffrwd waith ar gynhyrchiant (wedi cyflwyno adroddiad)<br>2 Y ffrwd waith ar sgiliau (wedi cyflwyno adroddiad)<br>3 Y ffrwd waith ar allforio (adroddiad ar fin cael ei gyhoeddi)<br><br>**CAM GWEITHREDU** – Y Cadeirydd i anfon yr adroddiadau at aelodau'r Bwrdd. |
| 5.2 | **Strategaeth Fwyd Genedlaethol (y DU), o dan gadeiryddiaeth Henry Dimbleby:**<br>Dyma'r adolygiad annibynnol cyntaf ers 75 mlynedd o System Fwyd Lloegr yn ei chyfanrwydd ond yng Nghymru, roddem yn canolbwyntio yn yr Ail Gynllun Gweithredu ar weithgynhyrchu bwyd. |
| 5.3 | Roedd yn hynod bwysig bod ein strategaeth ni yn cael ei chyhoeddi cyn yr un ar gyfer Lloegr yn 2020. Rydym ar y blaen yng Nghymru ac mae angen sicrhau nad ydym wedi hepgor unrhyw beth o'n hadroddiad.<br><br>**CAM GWEITHREDU** − ystyried cynnal cyfarfod nesaf y Bwrdd yn Swyddfa LlC, 25 Stryd Victoria, Llundain, 19 Chwefror 2020. |
| 5.4 | **Y Diweddaraf am Sgiliau:**<br>Rhoddodd **JF** yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y strategaeth sgiliau. Roeddent wedi mabwysiadu dull gweithredu a oedd yn debyg i'r un a ddefnyddiwyd yng nghynllun Cymru ar gyfer tair o'r blaenoriaethau allweddol, sef: (1) Prentisiaethau (2) Delwedd y Diwydiant (3) Gwella Sgiliau'r Gweithlu – sgiliau i sbarduno cynhyrchiant. Cafodd yr Adroddiad ar y Gadwyn Cyflenwi Bwyd ei gyhoeddi ar draws y DU ac roedd y Cadeirydd wedi sicrhau bod rhanddeiliaid o Gymru wedi cael rhoi adborth am flaenoriaethau ar gyfer ffermio, manwerthu a lletygarwch. Roed yr adroddiad ar sgiliau ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Ffederasiwn Bwyd a Diod. |
| 5.5 | Roedd **JF** wedi cyflwyno papur sgiliau i Gyngor Bwyd y DU am weithgarwch ym maes gyrfaoedd. |
| 5.6 | Cynigiodd **JF** y gallai'r Bwrdd noddi ymchwil yn y maes, er mwyn datblygu fframwaith clir a hyrwyddo negeseuon allweddol ymhlith pobl ifanc er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r diwydiant bwyd a diod.<br><br>**CAM GWEITHREDU – JF / AM** i ystyried fframwaith cyflawni. |
| **6.0** | **Cyflwyniad a Thaith o amgylch y Ganolfan Technoleg Bwyd** |

| | |
|---|---|
| 6.1 | Aeth y Bwrdd ar daith o amgylch y cyfleusterau yn y Ganolfan Technoleg Bwyd – Llangefni. |
| **7.0**<br><br>7.1<br><br>7.2<br><br>7.3<br><br>7.4<br><br>7.5<br><br>7.6 | **Y Diweddaraf am y Clystyrau – Adroddiad Gwerthuso**<br><br>Cafwyd adroddiad yn gwerthuso gwaith y clystyrau ac yn cyflwyno argymhellion am y ffordd ymlaen a'r cysylltiadau rhyngddynt a'r Bwrdd.<br><br>Teimlai aelodau'r Bwrdd fod ganddynt gwell dealltwriaeth o rwydweithiau'r clystyrau ac y dylid eu hyrwyddo'n ehangach.<br><br>Byddai gwaith y clystyrau yn helpu gyda'r Strategaeth Bwyd a Diod ar gyfer y dyfodol a chyda'r cynlluniau gweithredu dilynol.<br><br>Roedd Miller Research wedi paratoi adroddiad llawn a manwl am y clystyrau ac fe'i cyflwynwyd gerbron y Bwrdd.<br><br>**Y camau nesaf:**<br>Cwblhau'r adroddiad ac yna rhoi adborth i'r rhanddeiliaid ac amlinellu sut y bwriedid gweithredu yn y dyfodol mewn perthynas â'r clystyrau.<br><br>Roedd yn bosibl y byddai cyfleoedd i aelodau'r clystyrau gael eu cyfethol i'r Bwrdd am gyfnod o ddeunaw mis. Byddai'n rhaid iddynt wneud cais ffurfiol ar ôl y cyfnod hwnnw.<br><br>**CAM GWEITHREDU − AM/KS** i drafod a chytuno ar gamau gweithredu a fyddai'n dderbyniol i'r Gweinidog, y Clwstwr 201 a'r Bwrdd<br><br>**CAM GWEITHREDU − AM** alinio gwaith y clystyrau â gwaith y Bwrdd – Angen i'r clystyrau roi adborth i'r Bwrdd am broblemau, heriau a chyfleoedd a byddai'r Bwrdd yn amlinellu/mapio themâu cyffredin. |
| **8.0**<br><br>8.1<br><br>8.2<br><br>8.3 | **Dyfodol y Bwrdd**<br><br>Cynhaliwyd trafodaeth am ddyfodol y Bwrdd.<br><br>Cynigiwyd gan y Cadeirydd, ac eiliwyd gan Justine Fosh, y dylid penodi cynrychiolydd ar ran y clystyrau, cynrychiolydd ar ran y sector cig a chynrychiolydd ar ran y sector technoleg yn aelodau o'r Bwrdd.<br><br>Trafodwyd yr angen am Grŵp Amaeth a fyddai'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn er mwyn dod â'r diwydiant bwyd a diod a'r undebau ffermio at ei gilydd.<br><br>**CAM GWEITHREDU** – Cytunodd y swyddogion i drafod y mater gyda'r Gweinidog a cheisio cytundeb ar y ffordd ymlaen. |
| **9.0**<br><br>9.1 | **Y Bwrdd: Y Cyfryngau Cymdeithasol a Chysylltiadau Cyhoeddus**<br><br>Cyflwynodd Working Word y Cynllun Cysylltiadau Cyhoeddus i'r Bwrdd.<br><br>**CAM GWEITHREDU** – Kayla Moyles (KM) i fwrw ymlaen â'r ymgyrch recriwtio i ddenu rhagor o fusnesau i'r clystyrau. KM i bwysleisio'n cryfderau a'r berthynas gyda'r Bwrdd wrth iddi siarad ag eraill. |

| | |
|---|---|
| | **CAM GWEITHREDU** – **KM** i ddatblygu cynllun cyfathrebu ar Glystyrau.<br><br>**CAM GWEITHREDU** – datganiad am allforion domestig a Gwerth Brand Cymru yng nghyd-destun cynhyrchu ac allforio bwyd.<br><br>**CAM GWEITHREDU** − **DLT** i ddarparu ystadegau am ganlyniadau'r ymgynghoriad ar y strategaeth ac i gyflwyno data ar ffurf delweddau. **KM** i gael cymeradwyaeth y Bwrdd cyn rhyddhau'r wybodaeth ar y wefan a'i dosbarthu i'r cyfryngau sy'n targedu cynulleidfaoedd ehangach<br><br>**CAM GWEITHREDU** – y **Cadeirydd** i drefnu bod Levercliff yn dod i gyfarfod y Diwydiant Bwyd a Diod yn Llundain.<br><br>**CAM GWEITHREDU** – y **Bwrdd** i edrych ar gyfleoedd eraill yn y cyfryngau yn 2020 ac aelodau'r Bwrdd i gael hyfforddiant ar y cyfryngau<br><br>**CAM GWEITHREDU** – y **Cadeirydd** i ystyried a fyddai'n bosibl i Fwyd a Diod Cymru gynnal diwrnod Bwyd a Diod o Gymru ar y teras yn San Steffan.<br><br>**CAM GWEITHREDU** – **DM/AM** i drafod gyda'r Pennaeth TG yn Llywodraeth Cymru yr angen i gyfyngu'r hashnodau ar Twitter i uchafswm o ddau ym mhob neges, gan fod yr ystadegau'n dangos bod llai o drydariadau a'u bod yn denu llai o ddiddordeb.<br><br>**CAM GWEITHREDU** – y **Bwrdd** i Ddatblygu tudalen ar LinkedIn yn 2020. |
| **10.**<br><br>10.1 | **Rhaglen y Cymoedd Technoleg**<br><br>I'w thrafod yn y cyfarfod cyntaf yn 2020. |
| **11.**<br><br>11.1<br><br><br><br>11.2<br><br>11.3<br><br><br>11.4<br><br><br><br>11.5 | **Cynlluniau ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi**<br><br>Dosbarthwyd papur yn nodi'r dyddiadau a'r gweithgareddau. Gofynnwyd i aelodau'r **Bwrdd** gadarnhau a fyddent ar gael ar gyfer digwyddiadau yn Llundain a ledled y wlad, fel y bo modd pennu partneriaeth weithio ym mis Mawrth 2020.<br><br>Gwirfoddololodd **JF** i fynd i Bencadlys Morrison's yn Bradford.<br><br>**AM** i hysbysu'r Bwrdd am y lleoliad yn Borough Market (Llundain) unwaith y byddai wedi'i gadarnhau. Ni fyddai presenoldeb yn y lleoliad hwnnw yn 2020.<br><br>Edrychodd y **Cadeirydd** yn ôl ar 2019, gan amlinellu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd, a diolchodd i'r aelodau am eu gwaith caled a'u hymroddiad. Trafodwyd yr heriau a fyddai'n wynebu'r Bwrdd yn 2020.<br><br>**Dyddiadau a gadarnhawyd ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi 2020:**<br>Dydd Gwener 28 Chwefror – Gorsaf Piccadilly, Manceinion<br>Dydd Llun 2 Mawrth – Gorsaf Paddington, Llundain<br>Dydd Mercher 4 Mawrth – Gorsaf New Street, Birmingham |